Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015 am 10:00y.b.**
**Y Ganolfan Gydlynu Strategol, Pencadlys yr Heddlu**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | Mr Alasdair Kenwright | ) | |
| | Mr Malcolm MacDonald | ) | Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio |
| | Mrs Ann Williams | ) | |

**Hefyd yn bresennol:**

Tim Burton – Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)
Simon Prince – Prif Gwnstabl (PG)
Helen Morgan-Howard – Pennaeth Staff, SCHTh (HMH)
Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)
Edwin Harries – Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
Samantha Gainard – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio (SG) eitem 5 ar yr agenda yn unig
Jason Garcia – Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (JG)
Vicky Davies – Pennaeth Archwilio TIAA (VD)
Anne Williams – Swyddog Cymorth, SCHTh

Yn absenoldeb Gawain Evans, cytunodd Alasdair Kenwright i gadeirio'r cyfarfod.

Yn dilyn cyflwyniadau estynnwyd croeso cynnes i Vince Tether a Tony Joslin o AHEM a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fel arsylwyr.

**A17 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Gawain Evans, Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio, y CHTh Christopher Salmon, a Mr John Herniman o Swyddfa Archwilio Cymru.

**A18 Datganiadau o ddiddordeb**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**A19 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2015**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**A20 Materion yn codi**

Doedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

**A21 Trefniadau o ran parhad busnes**

Rhoddodd SG ddiweddariad ar drefniadau parhad busnes. Cadarnhaodd SG fod ymagwedd newydd tuag at rannu'r cynllun corfforaethol yn feysydd busnes, gyda

hyrwyddwyr parhad busnes yn cael eu nodi, ar waith. Byddai amserlen hyfforddi'n cychwyn ym mis Ionawr ac yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2016 cyn gwirio a phrofi'r system. Roedd amryw o fecanweithiau wedi'u harsylwi ynghyd â digwyddiad sefydliadol i sicrhau bod mesurau mewn grym yn realistig a chyraeddadwy. Nodwyd dyddiad targed o Fehefin 2016.

Cwestiynodd y Cadeirydd drefniadau ar gyfer rhannu o fewn y sefydliad i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r cynlluniad. Cadarnhaodd ymateb fod cyfrifoldeb yn gorffwys gyda phob adran gyda Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n gweithredu fel pwynt canolog, a chanllawiau ar wefan Parhad Busnes.

Diystyrwyd pryderon ynghylch cynnydd, gyda SG yn sicrhau y byddai hyfforddiant yn cychwyn ym mis Ionawr.

Cadarnhaodd VD fod yr adolygiad o Barhad Busnes a aildrefnwyd i 2015/16 Chwarter 4 wedi'i ohirio tan Chwarter 1 2016/17 gan roi sicrwydd ychwanegol i Aelodau.

Roedd MM wedi'i galonogi gan y diweddariad ac roedd hi'n dda nodi bod y mater wedi derbyn sylw. Sylwodd MM ar arwyddocâd ymarferion desg i ddarparu ymdeimlad ar gyfer digwyddiad go iawn a gwerth cynllunio ymlaen llaw wrth ddewis canolfan ystadau amgen priodol mewn unrhyw ddigwyddiad.

**A22 Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Allanol ar gyfer 2014-15 – Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys**

Crynhodd JG ganfyddiadau o'r gwaith archwilio yr ymgymerwyd ag ef mewn perthynas â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys yn ystod 2015.

Roedd datganiadau cadarnhaol allweddol o fewn y Llythyrau Archwilio'n tynnu sylw at farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2014-15 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu; roedd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol mewn grym yn y flwyddyn i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran eu defnydd o adnoddau; cyhoeddwyd tystysgrif sy'n cadarnhau bod archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2015.

Mewn ymateb i gwestiwn gan MM ar y meini prawf a ddefnyddir i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, esboniodd JG bod y meini prawf a restrir yn Atodiad A yn enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau a ddefnyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru i wneud eu hasesiad. Cwestiynau safonol yw'r rhain a ofynnir i bob sefydliad tebyg.

Croesawodd DGHTh yr adroddiad, yn arbennig o ran y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl â threfniadau priodol mewn grym ar gyfer effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Cyfeiriodd DGHTh at bwysau ariannol mewn blynyddoedd i ddod a chadarnhaodd gynllunio a pharatoi cynnar i ddiogelu cost plismona gwledig.

Roedd y Prif Gwnstabl eisoes wedi crybwyll gofyniad cyllideb ar gyfer 2016-17 ac oedd y Comisiynydd wedi cytuno ar hynny, waeth pa beth bynnag yw canlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

Croesawodd yr Aelodau'r datganiad hwn ar gyllideb 2016-17 gan gymeradwyo gwaith a gyflawnir gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u staff.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Allanol ar gyfer 2014-15**

### A23 Materion yn codi o Lythyrau Archwilio 2014-15

Cyn y cyfarfod, penderfynwyd dod â materion yn codi o lythyrau archwilio 2014-15 i'r Pwyllgor i ddarparu tryloywder didwylledd.

Cyflwynodd JG ddwy ddogfen – un wedi'i chyfeirio at y CC a'r llall at y PSA. Nododd yr Aelodau y byddai un ddogfen yn ddigon ar gyfer y dyfodol oni bai y nodir gwahaniaethau sylweddol.

Tynnodd JG sylw at rai materion o fewn y Cynllun Gweithredu; yn arbennig y rhaglen heriol a'r ymagwedd at gau'r cyfrifon yn gynt yn 2018-19. Byddai gweithdai sydd wedi'u trefnu gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ionawr 2016 yn mynd i'r afael â meysydd sydd angen eu gwella a heriau yn y dyfodol. Cadarnhaodd y CC waith sy'n digwydd ar hyn o bryd i fodloni dyddiadau cau cynt. Cyfeiriodd JG at feysydd cyfrif yn y dyfodol ar gyfer cydweithio yng Nghymru ac adroddodd ar anawsterau ac oedi a nodwyd o fewn archwiliad 2014-15.

Tynnodd y PSA sylw at faterion sy'n ymwneud â SCHTh mewn perthynas â pherchen asedau. Roedd ymarfer ar gyfer sefydlu perchnogaeth â'r Gofrestrfa Tir yn parhau ac roedd gwaith pellach ar adolygiad llawn o asedau wedi'i gynllunio.

Nodwyd y byddai ymatebion rheolwyr at faterion sy'n codi o lythyrau archwilio 2014-15 yn dod i ben yn dilyn y cyfarfod CBA.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y materion o ran SAC sy'n codi o lythyrau archwilio 2014-15 gan gadarnhau gwerth dwyn y materion hyn i'r Pwyllgor.**

### A24 Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Cryno

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Aelodau o'r fframwaith Sicrwydd Rheolaeth o 1 Rhagfyr 2015 yn dilyn gwaith a gyflawnwyd hyn yn hyn yn erbyn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015/16. Roedd y tabl o fewn yr adroddiad yn dangos 5 adroddiad wedi'u cwblhau a 3 archwiliad drafft ers y cyfarfod CBA blaenorol. Ni fu newidiadau i'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015/16 ar wahân i fân newidiadau i amseru fel y rhestrir o fewn Atodiad A. Nododd VD bod yr adolygiad o Barhad Busnes a ail drefnwyd ar gyfer Chwarter 4 wedi'i ohirio tan Chwarter 1 2016/17 oherwydd yr oedi o ran cwblhau'r

Cynllun Parhad Busnes gan ganiatáu i'r amser gael ei ddefnyddio ar gyfer adolygiad o'r Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr neu drefniadau ar gyfer Recriwtio a Chadw. Cytunodd yr Aelodau ei bod hi'n briodol i Swyddogion benderfynu pa adolygiad sydd fwyaf priodol a buddiol i'r sefydliad. Yn dilyn arsylwadau gan y CC, cytunodd yr Aelodau i newid y Cynllun Archwilio.

Rhestrwyd yr argymhelliad Blaenoriaeth 1 sy'n weddill a wnaed mewn adroddiadau archwilio blaenorol a'r sefyllfa gyfredol yn Atodiad B. Roedd cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd ar y trywydd cywir ar gyfer cwblhad erbyn diwedd y flwyddyn gydag adolygiad o Brydlesi wedi'i ohirio tan Chwarter 4 oherwydd absenoldebau staff. Roedd mân oedi mewn perthynas â sylwadau ar y drafftiau'n cael eu dychwelyd ar gyfer paratoad terfynol yn cael ei fonitro. Roedd Aelodau'n fodlon â'r cynnydd mewn perthynas â'r argymhelliad blaenoriaeth 1 sy'n weddill a wnaed yn yr adroddiad archwilio Parhad Busnes blaenorol.

Nodwyd fod Aelodau'n hapus â'r gwaith archwilio o ran nifer ac ansawdd adroddiadau.

**Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor i'r newid o fewn y Cynllun Archwilio.**

**A25 Adroddiadau Archwilwyr Mewnol**

**a) Adroddiad Sicrwydd Taliadau Credydwyr**

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer awdurdodi a thalu costau a godir gan y sefydliad a'r trefniant ar gyfer rheoli sieciau a thaliadau awtomataidd y sefydliad. Roedd yr adolygiad yn cynnig lefel sicrwydd rhesymol gyda 3 argymhelliad Blaenoriaeth 2 yn cael eu derbyn gan reolwyr gydag amserlenni rhesymol ar gyfer eu gweithredu.

Cododd MM bwynt ar gyfer egluro ar dudalen 4 mewn perthynas â'r cyfeiriad at sieciau heb eu cyflwyno sydd dros 12 mis oed yn cael eu harchwilio tra bod SAC wedi adrodd ar sieciau dros 9 mis heb eu cyflwyno. Cytunodd JG i gynnal ymholiadau mewn perthynas â'r rheol ynghylch sieciau heb eu cyflwyno.

**b) Adolygiad Sicrwydd o Drefniadau o ran Pensiynau**

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer creu, diwygio a dileu cofnodion pensiwn a thalu pensiynau. Roedd yr adolygiad yn cynnig sicrwydd sylweddol bod gan y sefydliad reoliadau da mewn grym mewn perthynas â threfniadau pensiwn ac ni nodwyd unrhyw argymhellion. Gofynnodd un awgrym am i ystyriaeth gael ei roi i adnabod a hyfforddi staff cyflenwi priodol wrth gefn yn absenoldeb y Swyddog Pensiynau. Roedd rheolwyr wedi derbyn yr awgrym hwn.

**c) Adroddiad Sicrwydd o drefniadau rheoli Cadw Tystiolaeth a Dogfennau.**

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer cadw tystiolaeth a dogfennau allweddol yn ddiogel. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried y prosesau sydd mewn

grym ar gyfer dal dogfennau a thystiolaeth yn ddiogel a'r trefniadau ar gyfer adalw, symud a dychwelyd tystiolaeth. Roedd yr adolygiad yn cynnig sicrwydd rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth 2 a oedd yn ceisio eglurder ar y System Rheoli Eiddo a ddefnyddir gan fod ardal yn yr Heddlu i alluogi gweithredu ac ymagwedd gytunedig.

Cymeradwyodd yr aelodau'r sylw gan reolwyr fel ymateb dilys.

**ch) Adolygiad Sicrwydd o'r Trefniadau Cynllunio Strategol**

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau yn ôl pa rai y mae'r Grŵp Prif Swyddogion ac uwch grwpiau rheoli'n sicrhau bod cynlluniau corfforaethol ar gyfer y sefydliad yn parhau'n gyraeddadwy mewn amserau o ansicrwydd economaidd. Roedd yr adolygiad yn cynnig asesiad sicrwydd sylweddol gyda rheolaethau da mewn grym dros y trefniadau cynllunio strategol.

Croesawodd DGHTh yr adroddiad a chadarnhaodd bod Cynllunio Strategol yn faes yr oedd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cyflawni llawer o waith. Ymdrinnir ag unrhyw faterion wrth iddynt godi trwy gyfarfodydd Bwrdd Plismona wythnosol a chyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu misol. Sicrhaodd DGHTh y Pwyllgor fod pob blaenoriaeth ac ymrwymiad o fewn yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gyflawni neu yn y broses o gael ei gyflawni.

Dywedodd MM fod dau aelod o'r CBA wedi arsylwi cyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a'u bod yn fodlon â'r mecanweithiau craffu sydd mewn grym a'r amrediad o bynciau a drafodir yn y cyfarfod.

Roedd cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu wedi dechrau cael eu darlledu dros y we. Roedd yr Aelodau'n cymeradwyo'r cyfleuster hwn a gwnaed cais am fanylion y safle er mwyn gwylio cyfarfodydd yn y dyfodol ar-lein.

Dywedodd HMH nad oedd y Cynllun Cyflenwi sy'n adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu'n cael ei gynhyrchu na'i adrodd i'r CBA bellach gan fod gwybodaeth o fewn y Cynllun hwnnw'n cael ei chynnwys mewn adroddiadau eraill.

**d) Adolygiad Sicrwydd o drefniadau Cyflogres**

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer creu, diwygio a dileu cofnodion cyflogres; talu lwfansau a chodiadau cyflog; a thalu cyflogau. Roedd yr adolygiad yn cynnig sicrwydd rhesymol gyda dau argymhelliad Blaenoriaeth 2 a gafodd eu derbyn a'u symud ymlaen gan reolwyr. Pwysleisiodd y CA waith sy'n digwydd o fewn yr adran Gyflogres.

**dd) Adolygiad Dilynol Interim**

Roedd yr adolygiad dilynol interim gan TIAA yn ystyried pa un ai a oedd camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr mewn perthynas â Blaenoriaeth 1, 2 a 3 yn

mynd i'r afael â materion rheoli a arweiniodd at yr argymhellion. Nodwyd cynnydd camau gweithredu gan reolwyr gyda 42 argymhelliad yn cael eu gweithredu, 1 yn y broses o gael ei weithredu, 1 nad yw'n berthnasol bellach, a 9 yn derbyn dyddiadau targed newydd. Ceisiwyd sicrwydd o ran pa un ai a oedd y dyddiadau targed newydd o fis Rhagfyr 2015 yn realistig. Er i'r CC adrodd bod y dyddiadau targed wedi'u gosod gan swyddogion cyfrifol a oedd mewn sefyllfa i gytuno ar y dyddiadau a osodwyd, pwysleisiodd VD y byddai adroddiad dilynol ym mis Mawrth yn nodi unrhyw lithriadau. Gwahoddwyd aelodau i adolygu cynnydd ar system ar-lein TIAA os oeddent yn dymuno hynny.

Llongyfarchodd yr aelodau TIAA ar nifer uchel yr adolygiadau sy'n cael eu gweithredu o fewn y broses archwilio gan ganmol y wybodaeth o fewn yr adroddiadau a dogfennau ategol sy'n rhoi mewnwelediad cynhwysfawr i aelodau.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr Adroddiadau Archwilio Mewnol.**

**Cam Gweithredu: Bod HMH yn rhoi manylion y safle gweddarlledu i'r aelodau.**

**A26 Estyn Cytundeb Archwilio Mewnol TIAA**

Tynnodd VD yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer gweddill y drafodaeth.

Gwobrwywyd y cytundeb ar gyfer darpariaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar gyfer CHTh a PhG Dyfed-Powys i TIAA ar 24 Mehefin 2013 am dair blynedd. Byddai'r cytundeb yn dod i ben ar 24 Mehefin 2016 a oedd yn caniatáu ar gyfer estyn y gwasanaethau a ddarperir am ddwy flynedd arall ar sail blwyddyn wrth flwyddyn. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried estyn y cytundeb archwilio mewnol gyda TIAA am flwyddyn.

Trafododd yr Aelodau digonolrwydd ac annibyniaeth perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol hyd yn hyn gan gyfeirio at fanteision aros gyda TIAA.

Bu trafodaeth pan ofynnodd JG i Aelodau ystyried profiadau blaenorol o weithio gydag archwilwyr mewnol. Cyfeiriodd JG at waith ar y cyd ar draws heddluoedd yn Ne Cymru a'r cwmpas ar gyfer cydweithio pellach a'r amser ar gyfer ystyried yr opsiwn o edrych i'r farchnad er mwyn cael gwell pecyn ariannol.

Cafwyd trafodaeth mewn ymateb i'r DGHTh yn gofyn i aelodau ystyried gwerth am arian y rhaglen archwilio, gan arwain at gefnogi'r cyfraddau ffi a gyflwynwyd.

Cytunodd yr Aelodau i lawn gymeradwyo estyn y cytundeb.

**Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor yn ffurfiol y byddai Cytundeb Archwilio Mewnol TIAA yn cael ei estyn am flwyddyn.**

**A27 Diweddariad ar weithgarwch AHEM**

Cynhaliodd AHEM 10 archwiliad ar Heddlu Dyfed-Powys yn 2015 gyda manylion yn cael eu darparu yn Atodiad A. Bu gostyngiad o ran cyflymdra a lefel archwiliadau AHEM dros y misoedd diwethaf, a chroesawyd hyn yn dilyn cyfnod hir o weithgarwch dwys. Roedd adroddiad cynnydd ar archwiliadau AHEM yn nodi gwaith da o fewn yr Heddlu o ran symud ymlaen â materion a godwyd. Roedd pob argymhelliad a wnaed gan AHEM wedi'i gipio ar gynllun gweithredu sy'n eiddo i'r Pennaeth Adran perthnasol ac yn cael ei fonitro drwy'r PGC/DD.

Byddai rhaglen PEEL yn parhau yn 2016 gyda phob heddlu'n destun adolygiad Cywirdeb Data Trosedd heb ei gyhoeddi. Roedd AHEM wedi cyhoeddi system o Swyddog Arweiniol AHEM yn cymryd mwy o ran mewn ymgysylltiad uniongyrchol â Heddluoedd unigol a chroesawyd yr ymagwedd hon.

Mewn perthynas â datblygiadau AHEM, roedd AHEM yn gweithio gyda'r partneriaid Cyd-archwilio Cyfiawnder Troseddol i ddod â rhaglen archwilio o faterion difrifol ar draws sbectrwm eang o weithgarwch cyfiawnder troseddol i ben. Mewn perthynas â chofnodi troseddau, yn y dyfodol, byddai AHEM yn cynnal archwiliadau dirybudd. Trwy waith mewnwelediad heddluoedd AHEM, roedd AHEM yn bwriadu casglu gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na chyn gwaith maes yn unig, gan leihau'r galw am ddata lle bo'n bosibl.

Tynnwyd sylw at gyhoeddiadau diweddar AHEM a chyhoeddiadau sydd ar ddod.

Eglurodd Mr Tether sefyllfa AHEM a chynnydd o ran archwiliadau wrth symud ymlaen i 2016.

Croesawodd y PG y newidiadau cadarnhaol y cyfeiriwyd atynt gan Mr Tether yn ymagwedd AHEM tuag at gyd-destun gweithgarwch a drefnwyd. Cyfeiriodd y PG at yr heria a berir i ardal heddlu Dyfed-Powys a gwnaeth rai arsylwadau ar ganlyniadau adroddiadau archwilio diweddar AHEM.

Wrth gyfeirio at bwysau blaenorol gweithgarwch AHEM ar fusnes dydd i ddydd, roedd yn dda ganddo glywed am y gostyngiad o ran gweithgarwch AHEM a chreu rôl arweinydd cyswllt rhwng yr Heddlu ac AHEM.

Croesawodd DGHTh greu rôl gyswllt hefyd, yn ogystal â chysylltiad AHEM yn y system cyfiawnder troseddol ehangach.

Ailadroddodd MM bryderon blaenorol Aelodau ar nifer anghymesur yr archwiliadau y mae Heddluoedd yng Nghymru'n destun iddynt.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ar weithgarwch AHEM.**

**A28 Cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2015**

Crynhodd y CC feysydd allweddol o fewn y cofnodion. Roedd pwynt sy'n werth nodi mewn perthynas â fformat y datganiadau Llywodraethu Blynyddol. Cytunwyd i aros tan ganlyniad ymgynghoriad gan CIPFA ar Fodel Llywodraethu CIPFA/Solace ddiwygiedig. Hefyd, roedd y fersiynau diweddaraf o'r Cofrestri Risg Dynamig a Chorfforaethol wedi'u hystyried.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag arwyddocâd cynrychiolydd o'r CBA yn bresennol mewn cyfarfodydd Grŵp Llywodraethu Corfforaethol. Yn absenoldeb y Cadeirydd, gofynnodd MM am roi ystyriaeth i wahodd dirprwy.

Darparodd y PSA eglurhad gan fod cyfarfod 10 Tachwedd wedi trafod penodiad diweddar y Cadeirydd i rôl newydd o fewn Llywodraeth Cymru ac effaith y rôl newydd hon ar ei safle fel Cadeirydd y CBA ac fel Aelod o'r CBA.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor gofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2015 a chytunwyd y byddai proses yn cael ei datblygu ar gyfer gwahodd dirprwy i gynrychioli'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd o'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn absenoldeb y Cadeirydd.**

**A29 Unrhyw fusnes arall**

a) Fel y soniwyd yn yr eitem agenda blaenorol, cyhoeddodd JW bod GE, Cadeirydd y CBA, wedi'i ddyrchafu i rôl Cyfarwyddwr Cyllid o fewn Llywodraeth Cymru. Cafwyd trafodaeth hir ynghylch priodoldeb GE yn parhau fel cadeirydd ac Aelod o'r CBA yng ngoleuni ei rôl newydd. Ystyriodd yr Aelodau farn SAC, TIAA a'r PG ar y mater. Codwyd pwyntiau gwerthfawr trwy drafod ac awgrymwyd y dylai Aelodau ystyried materion o gwmpas gwrthdaro buddiannau canfyddedig o fewn Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cytunodd yr Aelodau ar werth codi'r mater canfyddiad hwn â Swyddogion Llywodraethu o fewn Llywodraeth Cymru.

   Nodwyd fod GE wedi cyflwyno arbenigedd amhrisiadwy i'r pwyllgor a bu GE yn broffesiynol yn ei ymddygiad gan arddangos cyweirdeb o ran dwyn y mater i sylw'r Pwyllgor.

   Yn dilyn trafodaeth fanwl, cytunwyd y byddai'r PSA yn ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu o fewn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwrthdaro canfyddedig ac yn hysbysu'r Aelodau am y canlyniad.

   **CAM GWEITHREDU: Y PSA i ymgysylltu â'r swyddog perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru am gyngor ac adrodd ar y canlyniad i'r Aelodau cyn y cyfarfod nesaf.**

b) Cyfeiriodd y Cadeirydd at sylw negyddol yn y wasg yn ddiweddar mewn perthynas â Heddlu Dyfed-Powys. Trafododd yr Aelodau'r adolygiad o risg sefydliadol gan arwain at golli hyder y cyhoedd o ganlyniad i sylw negyddol yn y wasg.

   Cadarnhawyd yr ymagwedd a gymerwyd gan SCHTh a'r PG ac roedd yr Aelodau'n fodlon â'r camau gweithredu a gymerwyd er mwyn diogelu enw da'r sefydliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd a threfnwyd bod y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Mawrth 2016.**